

# Shwmae

Prifysgol Abertawe
Swansea University

## CARU ABERTAWE?

Cystadleuaeth lluniau #BywydPrifAbertawe

INSTAGRAM

tudalen 26

PROFIADAU

## CARU'R CAMPAU

Cyfweliad â'r syrffiwr rhyngwladol Rhys Poulton

tudalen 12

FFORIO


## EWCH YN FYD EANG

tudalen 06

Mae'r byd ar flaenau'ch bysedd ym Mhrifysgol Abertawe




04 Eich **Trac Sain i Abertawe**


10 Prosiect **Bloodhound**






14 Milltir Sgwâr **Dylan Thomas**





12 Caru'r **Campau**


20 Bywyd Gwyllt **Yr Athro Rory Wilson**


# Shwmae!

Rydych wedi darllen am yr addysgu gwych a'r ymchwil o'r radd flaenaf sy'n digwydd yma ym Mhrifysgol Abertawe. Nawr dyma'ch cyfle i ddysgu am fywyd go iawn y myfyrwyr.

Nod cylchgrawn Shwmae yw datgelu popeth i chi am fywyd y myfyriwr yma yn Abertawe! Cewch glywed gan ein myfyrwyr yn trafod eu profiadau personol a sut maen nhw wedi manteisio i'r eithaf ar fyw ac astudio yma – boed hynny drwy chwaraeon, cymdeithasu neu astudio dramor – does dim diwedd ar y cyfleoedd!

Mae taro'r cydbwysedd iawn yn y Brifysgol yn hollbwysig – gobeithio bydd digonedd o syniadau i chi yn y fan hon i'ch helpu i fwynhau pob eiliad o'ch amser yma! Mae Shwmae yn cynnig awgrymiadau i chi ar y llefydd gorau i fwyta ac yfed, digwyddiadau a gweithgareddau unigryw yn Abertawe a thu hwnt, ac yn awgrymu pa draethau a rhannau hardd o'r arfordir y dylech ymweld â nhw. Mae Shwmae yn llawn o wybodaeth ddefnyddiol i chi.

Diolch i chi am ddarllen, gobeithio'ch gweld eto yn fuan!



# *Ein* CYFRANWYR

## ASHLEY HOLLOWAY, ABERYSTWYTH BSc Seicoleg

Yn wreiddiol roeddwn i'n gobeithio astudio cwnsela i'r lluoedd arfog, ond roedd dewis astudio seicoleg ym Mhrifysgol Abertawe yn un o'r penderfyniadau gorau dw i wedi'i wneud yn fy mywyd. Fel rhywun o Aberystwyth, roedd yn bwysig i mi astudio yn rhywle oedd yn agos i'r môr – dw i'n hoffi bod yn fyfyriwr o Gymru mewn prifysgol yng Nghymru a dw i wrth fy modd gyda'r ffordd y caiff y Gymraeg ei hyrwyddo yma.

**DW I WRTH FY MODD GYDA'R FFORDD Y CAIFF Y GYMRAEG EI HYRWYDDO YMA.**

Dw i bendant wedi manteisio i'r eithaf ar fy amser ym Mhrifysgol Abertawe drwy fy ngwaith fel llysgennad i fyfyrwyr, ac yn fy ail flwyddyn pan ymunais â'r gymdeithas lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws fel aelod o'r pwyllgor. Ar ôl symud yn syth o adref i'r Brifysgol ac i rywle lle mae disgwyl i chi fod yn annibynnol, roedd yn braf cael bod ar y campws yn fy mlwyddyn gyntaf. Roeddwn i'n byw yn neuadd Penmaen a oedd yn agos at bopeth a doedd dim angen teithio'n bell i fynd i ddigwyddiadau'r myfyrwyr. Roeddwn i'n teimlo'n ddiogel yno ac roedd hynny'n bwysig i mi.

Un o fy hoff atgofion o'r wythnos gyntaf yn y Brifysgol oedd archebu pizza Domino's i'r coridor cyfan a'i fwyta gyda phawb arall ar y landin.

Mae astudio seicoleg wedi fy ngalluogi i edrych ar y byd mewn ffordd wahanol. Mae'n ddiddorol dysgu sut mae pobl yn gweithio mewn grwpiau a sut mae rhai pobl yn arwain mewn sefyllfaoedd penodol. Mae wedi fy helpu i ddeall pobl a'u safbwyntiau nhw. Y rhan fwyaf ysbrydoledig o'r cwrs i mi oedd gweithio ar fy mhrosiect blwyddyn olaf a oedd yn canolbwyntio ar farnu iechyd pobl o'u hwynebau. Ar ôl graddio mewn Seicoleg, fy ngobaith yw gwneud cais i astudio MSc mewn Rheolaeth.

## KIRAN MISTRY, RUGBY MEng Peirianneg Feddygol

Mae astudio Peirianneg Feddygol ym Mhrifysgol Abertawe wedi bod yn brofiad anhygoel. Yn wreiddiol roeddwn i am astudio yn Llundain, ond ar ôl dod i Brifysgol Abertawe, sylweddolais fod gan rywun amser i ddysgu yn ôl ei bwysau ei hun yma. Yn ystod fy nghyfnod yn Abertawe, dw i wedi bod yn ffodus i fanteisio ar ddatblygiad y cyfleusterau mwyaf modern ar Gampws y Bae sydd wedi arwain at lawer o gwmnïau allanol yn cynnig cyfleoedd interniaeth a lleoliadau i raddedigion i'r myfyrwyr Peirianneg.

**MAE'N WYCH BOD Y TRAETH AR STEPEN EICH DRWS.**

Dw i wedi cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau yn y Brifysgol, o fod yn aelod o'r Gymdeithas Hindŵaidd, i weithio ym mar y myfyrwyr, JC's a hyd yn oed cynrychioli Prifysgol Abertawe yn Varsity Cymru yn un o fy hoff gampau, Pêl-droed Americanaidd. Mae'n wych bod y traeth ar stepen eich drws a bod rhywun yn gallu mynd am dro a gweld y môr pryd bynnag fydd yr awydd yn codi. Roedd byw oddi ar y campws yn fy mlwyddyn gyntaf yn gyfle i wahanu'r brifysgol oddi wrth y lle roeddwn i'n byw. Fe wnes i gymaint o ffrindiau yn fy amser yno, ac roedden ni fel teulu bach i'n gilydd.

Un o'r pethau ddysgais o fy amser ym Mhrifysgol Abertawe, yw bod sawl gwedd i Beirianneg. Gall fod unrhyw beth o greu adeilad anferth i newidiadau bychan mewn cell. Pan ddechreuais fy ngradd, roeddwn i'n eitha cul fy meddwl ond erbyn y diwedd dw i wedi dod i sylweddoli pa mor eang yw peirianneg fel pwnc.

Dw i wastad wedi bod â fy mryd ar astudio meddygaeth, ac roedd gweithio ar fy mhrosiect ymchwil terfynol yn fodd i mi sylweddoli bod llawer mwy i Feddygaeth na llawdriniaeth a dosbarthu moddion i gleifion. Eleni, rwy'n gobeithio gweithio fel Cynorthwyydd Gofal Iechyd a fydd yn rhoi profiad ychwanegol i mi allu gwneud cais i astudio Meddygaeth y flwyddyn nesaf.

## HEATHER HARVEY, ESSEX BA Astudiaethau Americanaidd

Dw i wrth fy modd yn astudio Astudiaethau Americanaidd ym Mhrifysgol Abertawe oherwydd dydych chi ddim yn gyfyngedig i un pwnc yn unig – gallwch ddysgu am wleidyddiaeth, hanes, llenyddiaeth a ffilm fel rhan o'ch gradd.

**MAE GAN BRIFYSGOL ABERTAWE GYMAINT O OPSIYNAU I ASTUDIO DRAMOR.**

Mae gan Brifysgol Abertawe gymaint o opsiynau i astudio dramor gydag Astudiaethau Americanaidd – treuliais flwyddyn ym Mhrifysgol Maryland – roedd yn bwysig i mi fod yn agos at faes awyr fel y gallwn i fynd i deithio. Bydden i'n aml yn ffonio fy rhieni ar fore Gwener a dweud wrthyn nhw fy mod i'n mynd i rywle ar hap am y penwythnos – fy hoff leoliad oedd San Francisco! Drwy wneud hyn, fe wnes i fagu hyder ac annibyniaeth, rhywbeth a fu'n anodd i mi cyn hynny.

Yn fy mlwyddyn olaf, fi oedd prif olygydd y Cylchgrawn Astudiaethau Gwleidyddol a Diwylliannol, ac roedd hyn yn golygu penderfynu ar enw i'r cyhoeddiad, sicrhau cyllid a gweithio gyda dylunwyr. Rhoddodd y gwaith foddhad mawr i mi a bellach mae adrannau eraill yn chwilio am rywbeth tebyg. Yn ogystal ag astudio'n ddiwyd fe wnes i fwynhau chwarae pêl-droed a rygbi yn ystod fy nghyfnod yn Abertawe. Roedd mwyafrif y ffrindiau a wnes i yn Maryland yn fyfyrwyr oedd yn rhan o glwb rygbi'r Brifysgol – roeddwn wrth fy modd yn teithio i gemau ym mhob cwr o'r wlad gan gynnwys Chicago ac Efrog Newydd.

Elfen fwyaf diddorol fy ngradd oedd ysgrifennu fy nhraethawd hir – fi oedd yn arwain y gwaith a fi oedd yr arbenigwr yn y maes arbennig hwnnw – y rhan orau oedd peidio â gorfod derbyn cyfarwyddyd gan neb! Roedd fy ymchwil yn cwmpasu gwragedd yr arlywyddion a hawliau merched yn America. Er taw America oedd canolbwynt y gwaith, roeddwn hefyd yn edrych ar wledydd eraill fel Saudi Arabia, Irac ac Affganistan. Dw i nawr yn bwriadu astudio cwrs meistr mewn Polisi Cyhoeddus neu Gysylltiadau Rhyngwladol y flwyddyn nesaf!

## ROWAN DAVIS-BUTLER, CERNYW BA Almaeneg a Saesneg

Y foment fythgofiadwy i mi yn y Brifysgol oedd derbyn y wobr am y llwyddiant gorau mewn Almaeneg ar ddiwedd fy ail flwyddyn. Roedd brwdfrydedd y darlithwyr mor amlwg ar fy ymweliad ag un o'r Diwrnodau Agored – dysgais na ddylech chi seilio eich penderfyniad ar raddau yn unig, ac mae'n rhaid iddo fod yn gymysgedd o bob dim. Mae Cymru wedi cipio fy nghalon yn llwyr – mae rhywbeth am y bobl yma, a dw i'n teimlo bod Abertawe bellach yn ail gartref i mi.

**MAE CYMRU WEDI CIPIO FY NGHALON YN LLWYR.**

Mae rhywbeth hudol am allu siarad iaith nad oes neb arall o'ch cwmpas yn ei siarad. Mwynheais flwyddyn yn yr Almaen fel Cynorthwyydd Dysgu'r British Council – roedd y profiad dysgu hwn yn gyfrifol am fy arwain i at fod yn athro fy hun. Mae dysgu iaith yn sgil dw i am gyflwyno i eraill. Dw i bellach wedi gwneud cais i astudio Tystysgrif Ôl-raddedig mewn Addysg ym mis Medi.

Cyn dod i'r Brifysgol, roedd gen i gynlluniau mawr i gynilo arian, roedd gen i swydd dros yr haf ac yn awyddus i gadw arian o'r neilltu er mwyn fy helpu yn y flwyddyn gyntaf. Aeth y cynlluniau hynny i'r gwynt braidd...a gwariais yr arian i gyd yn ystod Wythnos y Glas!

Ond er nad hwn oedd y dechrau gorau, dw i'n credu taw'r wythnosau cyntaf yn y Brifysgol yw'r wythnosau pwysicaf – dyma pryd rydych yn cwrdd â'ch ffrindiau pwysicaf, ac mae pawb yn yr un cwch â chi!




## *Pam Abertawe?*

**Heather Harvey**

"Dwi'n hoff o'r ffaith mod i'n gallu bod yn 'nerd' heb neb yn dweud y drefn wrtha i."

**Kiran Mistry**

"Mae pawb yn ffrind i chi ar ôl y noson gyntaf allan."

**Ashley Holloway**

"Roedd Prifysgol Abertawe yn teimlo'n iawn o'r cychwyn cyntaf. Alla i ddim â dweud pam y des i yma ar ymweliad ond roedd yn teimlo'n iawn. Roedd y gofod gen i er mwyn ymestyn fy adenydd, ac roedd yn teimlo fel cartref i mi."

**Rowan Davis - Butler**

"Alla i ddim nodi un peth penodol dw i wedi'i fwynhau am fy amser i yma, mae wedi bod yn brofiad holl gynhwysfawr – dw i wedi gwneud ffrindiau oes ac wedi cwrdd â darlithydd mor ysbrydoledig dw i am fod yn athrawes fy hun o'i herwydd hi. Roedd hi yno i mi ac nid er mwyn hi ei hun, nid rhif oeddwn i iddi hi a dyna pam dw i'n caru Abertawe."

# EICH TRAC SAIN | ABERTAWE

**O ran dinasoedd i fyfyrwyr, mae'n anodd iawn curo Abertawe.**

Yn ddiweddar, daeth Abertawe i'r 19eg safle o blith y dinasoedd mwya fforddiadwy i fyfyrwyr yng ngwledydd Prydain (thelondoneconomic.com), ac mae Prifysgol Abertawe yn ymfalchïo yn y profiadau gwych sydd ar gael yma i fyfyrwyr sy'n cynnig gwerth am arian ar yr un pryd. Boed hi'n farbeciw ar y traeth ar ôl diwedd yr arholiadau neu benwythnos yn beicio ar hyd arfordir Penrhyn Gŵyr, does dim angen i chi wario ffortiwn i fwynhau bywyd fel myfyriwr.

**BETH AM ROI TREFN AR EICH TRAC SAIN A MYND I FWYNHAU GOREUON ABERTAWE!**





## 1

THE DRUMS
**LET'S GO SURFING**

**TRAETHAU SYRFFIO, PENRHYN GŴYR**

**Llangynydd** – Yn ôl papur newydd y Guardian dyma un o draethau syrffio gorau gwledydd Prydain. Traeth Llangynydd oedd traeth gorau gwledydd Prydain yn 2013 hefyd yn ôl un arolwg, ac mae'n llawn haeddu ei enw fel prif draeth syrffio'r Gŵyr oherwydd y llanw pwerus sy'n dod i mewn o Gefnfor Iwerydd yn barhaus.

**Rhosili** – Dyma 'The supermodel of British beaches' yn ôl papur newydd yr Independent. Dyma'r bae mwyaf gorllewinol ar benrhyn Gŵyr ac mae'n wynebu i gyfeiriad yr Iwerydd sy'n sicrhau tonnau syrffio cyson.

**Langland** – Heb os, dyma'r prif le syrffio ar benrhyn Gŵyr. Mae'r cytiau pert ar hyd y lan yn galw allan am Instagram.

**Caswell** – Traeth tywod hardd sy'n gartref i Ysgol Syrffio Penrhyn Gŵyr.

**Hunts Bay** – Trysor cudd; hanner milltir ar ôl Foxhole Bay, mae'n draeth bychan creigiog gydag ogofau, cafnau a holltau.

## 2

PHARRELL WILLIAMS
**MARILYN MONROE**

**Cinema & Co** – Ychydig yn wahanol i'r sinema gyffredin.

Gallwch fwynhau ffilmiau clasurol a modern mewn lleoliad unigryw. Mae mynd i weld ffilm yn troi'n achlysur arbennig yn y lleoliad hwn, gyda soffas cyfforddus a choctels deniadol, mae'n berffaith am noson gyda ffrindiau neu ddêt cynta.



## 3

RUDIMENTAL FT. JAMES ARTHUR
**SUN COMES UP**

**360** –
Chwilio am rywbeth i'ch deffro ben bore? Beth am ddosbarth ioga ar y traeth wrth i'r haul godi, neu her newydd byrddau padlo – y chwaraeon dŵr sy'n mynd o nerth i nerth?



## 4


HOUSE OF PAIN
**JUMP AROUND**

**Limitless Trampoline Park** – Heb os, dyma ymarfer corff llawn hwyl a sbri! Mae sesiynau bownsio agored ar gael am £10 yr awr ac mae dosbarthiadau ffitrwydd a nosweithiau DJ hefyd ar gael yn y parc yma.

## 5

KATY PERRY
**HOT N COLD**

**Hufen iâ Joe's** – Waeth beth yw'r tywydd, glaw neu hindda, bydd wastad ciw o bobl y tu allan i siop hufen iâ Eidalaidd enwocaf Abertawe.






## 6

TAKE THAT
**NEVER FORGET**

**Stadiwm Liberty** – Mae llwyddiant Clwb Pêl-droed Abertawe yn y Brif Gynghrair wedi denu rhai o dimau pêl-droed enwocaf y byd i'r ddinas. Dyma gartref yr Elyrch a thîm rygbi rhanbarthol y Gweilch yn ogystal â phrif leoliad i ddigwyddiadau yn ne-orllewin Cymru fel cyngherddau grwpiau fel Kings of Leon, Pink a Take That.






## 7

RIHANNA
**TAKE A BOW**

**Theatr y Grand, Abertawe** – Dyma gartref i'r Clwb Comedi sy'n rhoi llwyfan i rai o'r comediwyr gorau sydd. Ymhlith y sioeau sydd wedi'u trefnu ar gyfer 2018, mae Russell Brand, Bill Bailey a Sarah Millican.

Gyda'ch cerdyn NUS Extra gallwch arbed 50% ar Spotify Premium – cerddoriaeth ddiddiwedd am £4.99 y mis.



# Ewch Ymhellach

**Does dim angen i chi dreulio’ch amser i gyd yn astudio yng Nghymru.**

Yn Abertawe, rydym yn rhoi cyfle i’n myfyrwyr astudio, gwirfoddoli a gweithio dramor – gall fod yn un o’r penderfyniadau gorau y gwnewch chi! Mae gennym gysylltiadau â mwy na 100 o brifysgolion ledled y byd ac rydym yn cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr dreulio hyd at flwyddyn dramor.

Mae Aled, un o’n myfyrwyr hŷn sy’n astudio Nyrsio Oedolion, wedi treulio pythefnos yn Ne Ddwyrain Asia fel rhan o’i gwrs. Dyma ychydig am ei brofiad:

“Fel rhan o fy BSc Nyrsio Oedolion, treuliais bythefnos yn Ne Ddwyrain Asia yn ymweld ag ysbytai ac ysgolion gan feithrin dealltwriaeth ehangach o’r ddarpariaeth gofal iechyd yng Ngwlad Thai, Fietnam a Cambodia. Mae’r cymorth i fyfyrwyr ym Mhrifysgol Abertawe yn wych – cefais grant a wnaeth helpu tuag at gost y teithio a chefais gymorth hefyd cyn ac yn ystod y daith.

Fel rhan o’r daith fe aethon ni i weld ysbyty lleol yng Ngwlad Thai ac ysbyty cyhoeddus mwy yn Fietnam. Roedd hyn yn help i gymharu dwy wlad yn Ne Ddwyrain Asia yn ogystal â gweld y gwahaniaeth rhwng y gwledydd hynny a Chymru. Roedd y daith wedi fy helpu i ddatblygu fy ngwybodaeth am ofal iechyd mewn gwledydd gwahanol ac roedd yn bwynt cyfeirio gwych er mwyn cymharu’r sefyllfa wrth ddychwelyd i Gymru. Er nad oeddwn i’n gwybod llawer am Cambodia cyn y daith, dyma oedd fy hoff le heb os!

Mae Nyrsio Oedolion wedi bod yn anodd ar brydiau – mae’n gwrs eitha dwys a dw i ddim yn credu y bydden i wedi llwyddo cystal petawn i wedi dechrau’r cwrs yn syth o’r ysgol. Mae’r cwrs ei hun yn amrywiol o ran oedran ac fel myfyriwr hŷn, mae’n braf cael y cymysgedd hwnnw. Mae’r gefnogaeth yn anhygoel – yn broffesiynol, yn academaidd ac yn bersonol. Mae’r mentora yn y lleoliadau a’r staff academaidd yma yn gefnogol iawn ac wedi gwneud y broses yn hwylus iawn.

Fy nghyngor i unrhyw fyfyriwr fyddai manteisio ar unrhyw gyfle mae’r Brifysgol yn ei gynnig. Yn ogystal â’m helpu i ddatblygu fy nealltwriaeth o systemau gofal iechyd, roedd fy nhaith i Dde Ddwyrain Asia yn brofiad anhygoel na fydden i wedi gallu ei gael o bosibl petawn i heb astudio ym Mhrifysgol Abertawe”.

**Aled Thomas, BSc Nyrsio Oedolion**

**Am fwy o wybodaeth am gyfleoedd dramor, ewch i: abertawe.ac.uk/ewchymhellach a’u dilyn ar gyfryngau cymdeithasol i weld hynt a helynt ein myfyrwyr.**



## TEXAS

Mae Abertawe yn ffodus iawn bod gennym bartneriaeth unigryw gyda phrifysgolion amrywiol yn Texas. Mae hyn yn golygu y gallwn gynnig cyfle i'n myfyrwyr dreulio amser mewn rhai o brif sefydliadau'r Unol Daleithiau – gyda nifer o gyfleoedd ariannu hefyd!

*"Pan oeddwn i ar daith gyfnewid â Phrifysgol Texas yn Austin, roedd cyfle gen i i wneud interniaeth yn adeilad prif ddinas y dalaith lle bûm yn gweithio i Seneddwr o San Antonio. Fe wnes i ffrindiau â myfyrwyr o bob cwr o'r byd ac ar ôl fy arholiadau, treuliais dri mis yn teithio yn Ne America."*

**Tara Murphy, BA Athroniaeth, Gwleidyddiaeth ac Economeg**

## DISCOVERY

Yn ogystal ag astudio dramor, mae Abertawe yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd gwirfoddoli i fyfyrwyr – dramor ac yng ngwledydd Prydain – sydd am roi rhywbeth yn ôl ond sydd hefyd am feithrin profiadau a sgiliau gwych ar gyfer y CV.

*"Discovery yw'n cynllun gwirfoddoli i fyfyrwyr sy'n trefnu amrywiaeth o weithgareddau y gall myfyrwyr gymryd rhan ynddynt – o weithio gydag oedolion difreintiedig yn y gymuned leol, i gymryd rhan ym Mhartneriaeth Abertawe-Siavonga, sef rhaglen sy'n galluogi myfyrwyr i dreulio mis yn Zambia yn cefnogi plant drwy eu haddysg."*

*Un o'r pethau dw i'n edifar amdano fwyaf yw peidio â chymryd rhan yn Discovery ynghynt."*


**Koni Isaac, Peirianneg Feddygol**



# O wlad Thai i Texas









## MEDDWL AM RADDIO YN BAROD?

Efallai ei bod yn teimlo fel oes nes y byddwch chi'n graddio, ond mae'ch amser chi yn y brifysgol yn mynd yn gyflym iawn! Mae'n bwysicach nag erioed i feddwl am yr hyn rydych chi am ei wneud unwaith y byddwch chi'n graddio, ac mae Abertawe yn arwain y blaen wrth helpu myfyrwyr i ennill sgiliau, profiad a gwybodaeth a fydd yn eu gosod ar wahân i eraill, yn enwedig pan ddaw hi i gystadlu am swyddi...

Mae Academi Cyflogadwyedd Abertawe yn cynnig arweiniad gyrfaoedd, sesiynau galw heibio, digwyddiadau gyrfaoedd, interniaethau, a chyfleoedd am waith â thâl i bob un o'n myfyrwyr – felly gallwch fod yn dawel eich meddwl eich bod yn y sefyllfa orau bosibl pan fyddwch chi'n graddio.

Ewch i: **myuni.swan.ac.uk/cy/gyrfaoedd** am fwy o wybodaeth.

Swansea University Prifysgol Abertawe | SEA

## DYMA BENJAMIN OZOUDE, MYFYRIWR BSC ECONOMEG AR EI DRYDEDD FLWYDDYN YN TRAFOD EI LEOLIAD GWAITH YN Y SWYDDFA YSTADEGAU GWLADOL (ONS)

### *Soniwch am eich diwrnod gwaith yn yr ONS.*

Doedd dim diwrnod arferol yn yr ONS – yn fy wythnos gyntaf, roedd cryn dipyn o gyfarfodydd, cynhadledd dadansoddi ymchwil a thaith i Lundain. Yn anffodus, doedd gen i ddim cliriad diogelwch felly doedd dim modd i mi drin data sensitif, ond fe wnes i rywfaint o waith dylunio graffeg a phrawf-ddarllen erthyglau oedd i'w cyhoeddi.

### *Pa fath o gefnogaeth gawsoch chi yn ystod eich profiad gwaith?*

Fe ges i gryn dipyn o gefnogaeth gan bawb y gwnes i gyfarfod â nhw yn ONS. Roedd fy mentor, Helen, yn wych. Fe wnaeth hi'n siŵr fy mod i'n cael cwrdd â phobl yn y swyddfa fel bod pawb yn dod i fy adnabod i.

### *Pa sgiliau rydych chi wedi'u meithrin o ganlyniad i'r profiad gwaith yn eich barn chi?*


Mae fy sgiliau rhwydweithio wedi gwella'n sylweddol ar ôl i fi gwrdd â phobl ar bob lefel, o'r Prif Economegwyr, cyfarwyddwyr a'r ystadegwyr i staff swyddfa a myfyrwyr ar leoliad.

Mae'r lleoliad gwaith wedi fy ngwneud i'n llawer mwy cyfforddus mewn amgylchedd swyddfa a llai pryderus ynglŷn â dechrau gwaith yn llawn amser pan f ydda i'n graddio.

Nod Cynllun Mentora'r Ysgol Reolaeth yw rhoi cyfle i fyfyrwyr ddysgu gan bobl broffesiynol a datblygu eu sgiliau cyflogadwyedd. Mae'n cynnig cyfle i fentoriaid fireinio eu sgiliau ac yn helpu i greu cysylltiadau pellach rhwng Prifysgol Abertawe a busnesau a sefydliadau allanol.

Mae mwy o wybodaeth am Gynllun Mentora yr Ysgol Reolaeth yma: **somcareers@abertawe.ac.uk**

# Prosiect Bloodhound




# DR BEN EVANS

**ATHRO CYSWLLT, PEIRIANNEG AWYROFOD**

Darllenwch fwy am hanes Ben:
abertawe.ac.uk/ar-frig-y-don/benevans

**1 Pryd y dechreuodd eich diddordeb mewn peirianneg?**

Siŵr o fod tua'r adeg pan ddechreuais i ofyn cwestiynau megis: 'sut y mae awyrennau'n hedfan? a 'pham y mae'r bont honno yn edrych fel hynny?' er nad oeddwn yn sylweddoli mai cwestiynau 'peirianneg' oeddent ar y pryd. Rwy'n cofio mynd ar awyren am y tro cyntaf pan oeddwn i'n 11 mlwydd oed a chael fy synnu'n llwyr fod y lwmp mawr hwn o fetal a'r holl bobl oedd yn teithio ynddo yn gallu eistedd yn yr awyr, i bob golwg, heb ddim byd yn eu dal i fyny. O'r pwynt hwnnw ymlaen siŵr o fod, roeddwn i wedi dechrau ar y llwybr i ddod yn beiriannydd.

**2 Pam y gwnaethoch ddewis gyrfa mewn peirianneg?**

A dweud y gwir, ni chofiaf yr union eiliad pan 'ddewisais' i beirianneg. Siŵr o fod fy chwilfrydedd naturiol, wedi'i gyfuno â drysau penodol yn agor ar yr adegau cywir, a wnaeth fy arwain yn y cyfeiriad hwn. Dewisais i astudio peirianneg oherwydd fy niddordeb mawr yn y pwnc, a siŵr o fod oherwydd fy ngalluoedd naturiol mewn mathemateg a ffiseg, ond roeddwn i am astudio rhywbeth a oedd i bob golwg ychydig yn fwy ymarferol nag un o'r gwyddorau 'pur'.

**3 Beth y byddech chi'n ei wneud fel gyrfa os nad oeddech yn beiriannydd?**

Pan oeddwn i yn fy arddegau, roeddwn i am fod yn beilot cwmni hedfan ac yn aml meddyliaf am sut beth fyddai bywyd petawn i wedi dilyn y llwybr hwnnw. Am amser hir – tan yn eithaf diweddar! – roeddwn i'n awyddus iawn i ddod yn athro ysgol ond pe bai modd i mi gael unrhyw yrfa, byddwn i wedi bod wrth fy modd gyda gyrfa fel cerddor proffesiynol mewn band.

**4 Beth yw'r peth gorau am fod yn rhan o brosiect BLOODHOUND?**

Teimlaf mai'r peth gorau am weithio ar BLOODHOUND yw gallu mynd i'r afael â heriau anodd iawn nad oes neb arall yn gwybod yr ateb iddynt. Bu'n fraint go iawn gallu gweithio hyn wrth ochr peirianwyr eraill sy'n dalentog iawn.

**5 Beth yw rhan anoddach eich swydd?**

Heb os her fwyaf gyrfa fel peiriannydd yn y byd academaidd yw canfod y cydbwysedd rhwng yr amryw agweddau ar eich swydd: addysgu, ymchwil, cydweithrediadau, gweinyddiaeth, cyhoeddi, ennill grantiau… weithiau ymddengys fod y rhestr yn ddiddiwedd. Rwyf yn dwlu ar bob un ohonynt (neu'r rhan fwyaf ohonynt) ond mae hi bob amser yn her gweithio allan sut i'w blaenoriaethu.

**6 Beth oedd eich car cyntaf?**

Renault Megane hen iawn nad oedd wedi para'n hir! Yr eironi yw, er fy mod yn ymwneud â dylunio'r car cyflymaf yn y byd, nid oes gennyf ddiddordeb mawr mewn ceir! Heddiw gyrraf Citroën C1 1.1 litr!

**7 Y tu allan i'r gwaith, beth yw'ch angerdd mewn bywyd?**

Wel, mae nifer ohonynt! Mae fy nheulu'n bwysig iawn i mi - mae treulio amser gyda'm merch fach yn ffordd wych o ymlacio ar ddiwedd diwrnod prysur. Rwyf yn dwlu ar gerddoriaeth ac yn chwarae'r feiolin a'r gitâr mewn band gwerin. Rwyf hefyd yn dwlu ar syrffio ac yn byw mewn lle gwych i fanteisio ar ychydig o draethau gwych. Mae fy ffydd Gristnogol yn bwysig iawn i mi hefyd… rwyf yn weddol brysur!

**8 Beth yw'r cyngor gorau gawsoch erioed?**

Dim ond i wneud beth sydd o'ch blaen hyd eithaf eich gallu a mwynhau bywyd!


**9 Pa dri gair y byddwch yn eu defnyddio i ddisgrifio'ch hun?**

Optimistaidd, angerddol, diamynedd.

**10 Pe gallech ddewis cael un archbŵer, pa un y byddwch yn ei ddewis?**

Ychwanegu oriau ychwanegol at y dydd…

# Rhys Poulton




Chris French Photography

**Ym Mhrifysgol Abertawe mae chwaraeon yn hollbwysig. Os mai rygbi yw'ch camp neu os mai syrffio sy'n mynd â'ch bryd chi, mae clwb chwaraeon ar eich cyfer chi.**

**Cawsom sgwrs yn ddiweddar gyda Rhys, sydd newydd raddio – mae Rhys yn dod o bentref bach o'r enw Llangynydd, yng nghanol penrhyn Gŵyr, tua 30 munud o Brifysgol Abertawe.**

**Graddiodd Rhys â gradd dosbarth cyntaf mewn Mathemateg, ond mae ei arbenigedd arall i'w weld y tu allan i'r theatr darlithio. Oherwydd ei ddawn fel syrffiwr fe enillodd Rhys Ysgoloriaeth Chwaraeon, ac ers dechrau ym Mhrifysgol Abertawe, mae wedi cystadlu ar lefel genedlaethol ac Ewropeaidd a chafodd ei ethol fel Capten y Clwb Syrffio yn ei flwyddyn olaf.**

**Nawr bod Rhys wedi graddio bellach, cawsom wybod mwy am ei amser ym Mhrifysgol Abertawe, a'i gariad at ei filltir sgwâr.**



## CARU'R CAMPAU

**C PAM DEWIS PRIFYSGOL ABERTAWE?**

A Dewisais Brifysgol Abertawe oherwydd sawl peth mewn gwirionedd; y cwrs, y ddinas sy'n gweld twf aruthrol a'r bobl gyfeillgar. Ond y prif reswm dros fy mhenderfyniad oedd ei lleoliad. Mae Abertawe ymhlith y prifysgolion agosaf at y môr yn y byd, ac mae'r lleoliad hwnnw'n golygu tonnau! O'r toriadau ar y traeth i'r riffiau, mae popeth ar gael yn Abertawe a Phenrhyn Gŵyr.

**C SUT MAE EICH YSGOLORIAETH CHWARAEON WEDI'CH HELPU CHI?**

A Yn gyntaf, roeddwn ychydig yn nerfus am hyn oherwydd doeddwn i ddim yn gwybod beth fyddai'r disgwyliadau. Ond ar ôl cwrdd â fy Hyfforddwr Personol, roeddwn yn teimlo'n gartrefol ar unwaith.

Roedd sawl mantais i'r ysgoloriaeth tair blynedd, o gymorth ariannol da i faint bynnag o sesiynau cryfhau a chyflyru un-i-un allai rhywun eu hwynebu! Roedd mwy na digon o gyfleoedd gen i wella fy mherfformiad y tu allan i'r dŵr, gyda chyfleusterau o'r radd flaenaf a hyfforddiant personol heb ei ail. Mae'n gynllun gwych a dw i'n hynod ffodus a diolchgar i fod yn rhan ohono.

**C DYWEDWCH WRTHYM AM EICH PROFIADAU GYDA'R CLWB SYRFFIO.**

A O'r diwrnod cyntaf roedd y Clwb Syrffio yn gyfrifol am agor fy llygaid i'r llu o bobl dda a'r hwyl sydd i'w chael ochr yn ochr â'm hastudiaethau. O ddigwyddiadau cymdeithasol, diwrnodau syrffio a thripiau gaeaf i Foroco a Fuerteventura – roedd y clwb yn anhygoel.

Cefais fy ethol yn gapten ar y Clwb Syrffio yn fy mlwyddyn olaf, braint aruthrol. Roedd rhedeg a goruchwylio pob digwyddiad i'r clwb yn her, yn enwedig yn ystod fy mlwyddyn olaf o astudio, ond fe wnes i fwynhau pob munud!

Mae'r Clwb Syrffio yn deulu enfawr sy'n parhau i dyfu a dyma wnaeth fy nhair blynedd i yn y brifysgol mor bleserus. Dw i'n annog unrhyw un sydd heb ymuno â chlwb i gymryd rhan mewn clwb cymdeithasol neu glwb chwaraeon!

**C YDYCH CHI WEDI CYMRYD RHAN MEWN CYSTADLEUTHAU SYRFFIO?**

A Bob blwyddyn mae Clwb Syrffio Prifysgol Abertawe a thua 60 o'i aelodau yn mynd lawr i Newquay ar gyfer cystadleuaeth syrffio BUCS, sef Chwaraeon Prifysgolion a Cholegau Prydain. Yn fy mlwyddyn gyntaf yn 2014, enillodd dynion Abertawe aur am y tro cyntaf mewn blynyddoedd, ac fe ddes i'n gyntaf! Yn 2015 fe ddes i'n ail ac yn 2016, yn drydydd.

Drwy gydol fy amser yn y brifysgol, dw i wedi cael y pleser o gynrychioli Cymru ym Mhencampwriaethau Syrffio Ewrop ym Moroco, ac fe ddes i'n ail yng nghystadleuthau Cenedlaethol Cymru yn 2017.

**C BLE YW EICH HOFF LEOEDD CHI I SYRFFIO?**

A Fy hoff leoedd i syrffio yw adref yn Llangynydd a de'r Gŵyr...yn ogystal ag ambell daith i Bortiwgal! Gobeithio bydd lleoliadau mwy trofannol ar y gorwel.

**C PA GYMORTH RYDYCH CHI WEDI'I DDERBYN GAN Y BRIFYSGOL?**

A Yn ogystal â'r Ysgoloriaeth Chwaraeon, roedd aelodaeth lawn o'r gampfa a'r pwll nofio. Roedd gen i gynlluniau hyfforddi wythnosol gan fy Hyfforddwr Personol a fyddai'n cadw llygaid barcud ar fy nghynnydd o ran fy lles corfforol a dietegol.

**C DISGRIFIWCH EICH PROFIAD YN Y BRIFYSGOL MEWN 3 GAIR.**

A Parti Syrffio Mathemategol (fe gymrodd hi ychydig o amser i mi feddwl am hyn!)

**C BETH YW'CH CYNGOR CHI I FYFYRWYR SY'N CEISIO PENDERFYNU I BA BRIFYSGOL Y DYLEN NHW FYND?**

A Bydden i'n dweud wrthyn nhw i beidio â gwneud y camgymeriad y gwnes i drwy gymryd blwyddyn i ffwrdd i deithio er mwyn meddwl am eich penderfyniad! Dewch yma cyn gynted ag y gallwch, oherwydd mae'r parti yn aros amdanoch chi gyda phobl anhygoel a ffrindiau oes yn barod i'ch croesawu!

O'r lleoliad, y cyfleusterau mwyaf modern a'r bywyd cymdeithasol anhygoel – mae gan Abertawe bopeth i'w gynnig a phe bai gen i'r cyfle, bydden i'n gwneud y tair blynedd i gyd eto!

DARGANFYDDWCH FILLTIR SGWÂR

# Dylan Thomas

**Y bardd Dylan Thomas yw un o feibion enwocaf Abertawe. Ganed yn Abertawe yn 1914, a disgrifiodd y dref fel "an ugly, lovely town" yn un o'i gerddi. Ysbrydolodd ei filltir sgwâr y rhan fwyaf o'i waith, ac roedd Dylan yn dal i fyw yn 5 Cwmdonkin Drive pan gychwynodd ei ddiddordeb mewn barddoni.**

**Mae nifer o dirnodau a mannau o ddiddordeb sy'n berthnasol i Dylan Thomas ar draws y ddinas lle gallwch chi ddarganfod mwy am fywyd a gwaith y bardd enwog.**

## #1 MAN GENI DYLAN THOMAS CWMDONKIN DRIVE, UPLANDS

Yn ôl papur newydd The Times, man geni Dylan Thomas yw un o amgueddfeydd bach gorau Prydain. Yn ddiweddar, cafodd y tŷ ei adfer yn llawn i gyflwr 1914 pan brynwyd yn dŷ newydd i'r teulu. Mae teithiau tywys o'r tŷ ar gael, ac os nad yw hynny'n ddigon, gallwch chi dreulio'r noson yno a phrofi'r gorffennol ar eich pen eich hun!

**dylanthomasbirthplace.com**









## #2 PARC CWMDONCYN


Wedi'i lleoli tafliad carreg o gartref genedigol y bardd, roedd Parc Cwmdoncyn yn ffynhonnell bwysig o ysbrydoliaeth i'r bardd, ac roedd yn ymddangos yn ei waith, gan gynnwys y darllediadau radio Retrun Journey a Reminiscences of Childhood, ac, yn enwocaf, y gerdd The Hunchback in the Park. Rhoddwyd carreg goffa gyda llinellau o un o'i gerddi enwocaf, Fern Hill, yn y parc ym 1963. Gyda'r cyfuniad perffaith o harddwch naturiol a chyfleusterau gwych, mae'n werth ymweld â hi.

**abertawe.gov.uk/cwmdoncyn**

## #3 THE UPLANDS TAVERN (THE TAV)

Yr Uplands Tavern, neu'r "Tav" i'w gwsmeriaid rheolaidd, oedd tafarn lleol Dylan Thomas. Wedi ei leoli yng nghalon yr Uplands, mae gan y dafarn gwtsh Dylan Thomas, lle treuliodd y bard oriau yn sgwrsio â'i ffrindiau. Cymerwch sedd, mwynhewch y gerddoriaeth byw, a chodwch wydryn i Dylan!

**uplandstavern-uplands.co.uk**






## #4 CANOLFAN DYLAN THOMAS

Canolfan Dylan Thomas yw'r man cychwyn gorau i bobl sydd am ddarganfod mwy am fywyd a gwaith Dylan Thomas. Agorwyd y ganolfan gan gyn-lywydd yr UDA, Jimmy Carter yn 1995, ac mae'n arddangosfa o lythyrau, llawysgrifau, cyhoeddiadau a recordiadau sy'n dathlu bywyd a gwaith Dylan Thomas. Mae'r ganolfan yn cynnal digwyddiadau llenyddol trwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys yr Ŵyl Dylan Thomas flynyddol sy'n rhedeg o 27 Hydref i 9 Tachwedd.

**dylanthomas.com**



## #5 SGWÂR DYLAN THOMAS

Wedi'i leoli ychydig o funudau o Wind Sreet, lle byddai Dylan yn cilio rhwng sifftiau yn South Wales Evening Post, mae'r Sgwâr yn cynnwys cerflun efydd o'r awdur ar gadair, yn edrych dros y marina. Y tu ôl iddi ceir Theatr Dylan Thomas, cartref ei hen gwmni, Swansea Little Theatre, ac mae cerflun o Captain Cat o'r ddrama Dan y Wenallt gerllaw. Ar yr ail ddydd Sul o bob mis, mae'r Sgwâr yn gartref i Farchnad y Marina - marchnad stryd sy'n gwerthu cynnyrch Cymreig lleol a chrefftau wedi'u gwneud â llaw.



## YDYCH CHI'N *hoffi coffi* NEU'N *dwlu ar daiquiri?*

### #1

**Noah's Yard**
Caffi a bar gwin â décor eclectig ac awyrgylch gwych ynghyd â synnwyr digrifwch arbennig.

**Brewstone**
Siop goffi a bwyty. Mae'n cynnig dewis helaeth o gwrw grefft a bwydlen sy'n cynnwys seigiau arddull tapas, saladau a pizzas.

### #2

**Uplands Diner**
Mae'n enwog am ei frecwastau Mega Beast - yn ddelfrydol ar gyfer y bore ar ôl y noson gynt!

**Whitez**
Mae'r lleoliad llawn steil hwn yn cynnig cerddoriaeth fyw yn rheolaidd. Mae ei deras ar y to a'r neuadd bŵl yn berffaith i ymlacio.

### #4

**The Swigg**
Mae enw'r bar tapas hwn, a leolir yn adeilad hen warws ar y cei, yn dod o fwi ym Mae Abertawe.

**Grape & Olive**
Byddwch yn mwynhau golygfeydd godidog dros Fae Abertawe a'r Mwmbwls wrth i chi fwyta.

### #5

**The Pump House**
Ar ymyl Ardal Forol Abertawe, mae gan y dafarn draddodiadol hon eich holl hen ffefrynnau!

Rhowch gipolwg ar y lleoedd bwyta ac yfed rydym yn eu hargymell ar hyd y llwybr...



# "Coffi da a rhoi yn ôl"

## JOSH PIKE, SIOP GOFFI SQUARE PEG

**Cawsom sgwrs â Josh Pike i ddarganfod mwy am goffi da, rhoi yn ôl i'r ardal leol a'i weledigaeth ar gyfer caffi Square Peg ym mhob cymuned...**

**Ewch i squarepeg.org.uk am ragor o wybodaeth am bryd canol bore, cinio, a the prynhawn!**

cysylltiadau defnyddiol:
**zacsplace.org**
**kenyachildrenofhope.org**



> Mae myfyrwyr yn fwy fwy cydwybodol am wario'u harian. Maen nhw am sicrhau ei fod yn mynd at achos da ac mae Square Peg yn lle gwych i'r myfyrwyr deimlo y gallan nhw gymryd rhan a bod yn rhan o'r gymuned leol yn ystod eu cyfnod yma yn y Brifysgol.
>
> Josh Pike

**Daeth Josh i Abertawe o Lundain i weithio fel Syrfëwr Morol, ond nid oedd wedi rhagweld bryd hynny y byddai, ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach, wedi helpu sefydlu caffi cymunedol sydd wedi mynd o nerth i nerth.**

Drwy eu brwdfrydedd dros syrffio a'u ffydd, daeth Josh i gyfarfod â Matt, y gweinidog yn Eglwys Parklands yn Sgeti, a phenderfynodd gymryd rhan yn y prosiect.

Sefydlwyd Square Peg yn Sgeti ym mis Mawrth 2014 gyda'r weledigaeth o roi yn ôl i'r gymuned mewn elw, ansawdd a chariad. Ers agor, mae Square Peg wedi rhoi bron gymaint â £7,000 i elusennau fel Zac's Place yn Uplands a Kenya Children of Hope, sef elusen a sefydlwyd yn Kenya er mwyn sicrhau cartref i blant y stryd yn Nairobi. Mae'r prosiect wedi rhoi cartref i dros 1,000 o blant yn Kenya ac wedi'u helpu i ddod o hyd i'w rhieni.

Roedd gan Matt, sylfaenydd Square Peg, weledigaeth am fusnes nad oedd er elw, ac a oedd yn rhoi yn ôl i'r gymuned leol ar yr un pryd. Roedd am iddi fod y caffi eglwys orau o'i fath – coffi da a rhoi yn ôl i'r gymuned.

Mae'r holl fwyd wedi'i gyflenwi drwy gwmnïau moesegol – mae rhai o'r cacennau blasus yn cael eu gwneud yn y caffi ei hun, ac eraill yn cael eu darparu gan y cogydd figan, Andy o Naturally Kind, a Cakesmiths ym Mryste. Mae'r holl ddiodydd potel wedi'u cynhyrchu gan fentrau cymdeithasol nid er elw ac maen nhw'n rhoi arian yn ôl i'r ffermwyr te dramor. Gallwch fod yn sicr y bydd unrhyw beth a brynwch yn Square Peg yn gynnyrch lleol, moesegol a ffres.

Yn ogystal â choffi a phrydau blasus canol bore, mae Peg Talks yn boblogaidd iawn yn Square Peg, ac maen nhw'n dod â siaradwyr lleol ynghyd o'r gymuned leol i drafod prosiectau maen nhw wedi'u sefydlu yn Abertawe, neu rywbeth ysbrydoledig maen nhw wedi'i gyflawni. Mae'r sgyrsiau hyn am ddim ac yn hynod boblogaidd felly archebwch lle yn fuan! Mae Peg Talks yn ffordd wych o gael gwybod mwy am brosiectau y gallwch gymryd rhan ynddyn nhw fel myfyriwr yma!

Mae Square Peg newydd agor ei chwaer gaffi Peg 2, ym mhentref pysgota'r Mwmbwls ac mae'n fwriad ganddyn nhw sefydlu Square Peg ym mhob cymuned yn Abertawe. Mae'n weledigaeth fawr, ond byddai'n ffordd wych i'r arian fynd at elusennau sy'n gysylltiedig â'r eglwysi lleol a'r cyffiniau.

Mae Eglwysi Abertawe yn dod ynghyd i ddarparu llety dros nos i rai o bobl ddigartref Abertawe yn ystod nosweithiau oer y gaeaf.

Mae'n rhan o brosiect Lloches Nos Abertawe, sydd wedi'i drefnu gan Swansea Hope (rhwydwaith o eglwysi lleol), sy'n gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau ac elusennau i'r digartref lleol i gynnig pryd o fwyd cynnes, gwely cynnes a brecwast dros gyfnod o 3 mis i'r digartref yn Abertawe.

Yn ôl Paul Mort, Rheolwr Lloches Nos Abertawe, "Yn fras, mae 7 eglwys yn agor eu drysau dros nos i groesawu'r digartref sydd wedi'u cyfeirio atom gan asiantaethau yn y ddinas. Ym mhob lleoliad, maen nhw'n derbyn bwyd cynnes a maethlon, cwmni da a lle cynnes, sych, ac yn bwysicach na dim, lle diogel i gysgu.

Yr wyth lleoliad yw'r Uniting Church yn Sgeti, Eglwys Hill Church yn y Strand, Eglwys Parklands yn Sgeti, Eglwys Pantygwydr yn Uplands, Eglwys Christwell yn Nhremansel, Eglwys LifePoint yn Uplands ac Eglwys yr Holl Saint yn Ystumllwynarth.

Mae Lloches Nos Abertawe yn croesawu gwirfoddolwyr o bob oed a chefndir.
Os hoffech gymryd rhan neu os hoffech ragor o wybodaeth, anfonwch e-bost at **swanseahope@gmail.com** neu ewch i **parklandschurch.org.uk/swansea-night-shelter**

# "TOMATOS TUN YDY TOMATOS TUN"

## Rheoli eich arian yn y Brifysgol

**Am ragor o wybodaeth am ein holl ysgoloriaethau ewch i:**

**abertawe.ac.uk/ysgoloriaethau**



### YSGOLORIAETHAU

Mae penderfynu mynd i'r brifysgol yn gyfnod cyffrous ac eto'n achos pryder, yn enwedig pan fyddwch chi'n ystyried yr holl gostau sy'n gysylltiedig â byw oddi cartref. Ond yn Abertawe, mae gennym gymaint o gymorth ar gael i fyfyrwyr cyn iddyn nhw gyrraedd, ac yn ystod y cyfnod y byddan nhw yma.

Rydym yn cynnig amrywiaeth o ysgoloriaethau, o Ragoriaeth Academaidd, Bwrsariaethau Chwaraeon, Ysgoloriaethau Adrannol ac Ysgoloriaethau Cymraeg. Mae'r ysgoloriaethau hyn wedi helpu llawer iawn o fyfyrwyr i sicrhau'r profiad gorau posibl yn y brifysgol, a hyd yn oed wedi galluogi myfyrwyr i ddod i'r brifysgol pan doedd hynny ddim yn opsiwn yn eu barn nhw.

### YSGOLORIAETHAU CYMRAEG

"Roeddwn i'n ffodus iawn i dderbyn Ysgoloriaeth Cymhelliant gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. O ganlyniad, dw i'n teimlo fy mod i wedi dod yn rhan o gymuned ac wedi cwrdd â chymaint o bobl sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg felly roedd yn bleser dod i adnabod pobl oedd yn yr un cwch â mi. Roedd yr ysgoloriaeth yn ddefnyddiol iawn pan oedd angen i mi fuddsoddi mewn deunydd astudio, er enghraifft gwerslyfrau, yn ogystal â thalu am bethau bob dydd fel bwyd a chostau teithio. Dw i wedi mwynhau astudio rhan o'm cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg a dw i'n edrych ymlaen at yr amser sydd gen i'n weddill yn Abertawe."







*"Tomatos tun ydy tomatos tun"*

***Heather Harvey***

### CYLLIDEB AR GYFER BWYD

Bwyd yw'r ail gost fwyaf ar ôl rhent, felly byddwch yn gall yn y gegin. Prynwch frandiau'r archfarchnad ei hun yn hytrach na brandiau enwog ac fe fyddwch chi'n synnu faint gallwch chi ei arbed mewn blwyddyn.

Gweithgareddau tîm – Beth am i chi gyfuno'ch arian a choginio fel grŵp? Bydd rhannu cost eich siopa wythnosol yn helpu i arbed ychydig o arian, ac yn ffordd wych o ddod i adnabod eich cyd-letywyr. Ac os ydych chi'n gogydd o fri, chi fydd ffrind gorau pawb yn y tŷ!

*"Fe gymerodd hi ychydig o amser i mi ddod i arfer, ond mae'n haws o lawer i mi nawr wrth gynllunio fy mhrydau ymlaen llaw yn hytrach na phrynu rhywbeth ar hap!"*

***Kiran Mistry***

Gallwch arbed eich ceiniogau prin drwy feddwl a chynllunio ymlaen llaw pa brydau y byddwch chi am eu gwneud yr wythnos honno, cyn crwydro'n ddi-gyfeiriad o amgylch y siopau yn dewis bwydydd gwahanol. Mae'r holl fwyd yna sydd dros ben yn pydru yn yr oergell yn wastraff arian yn y pen draw!

### WYDDECH CHI?

Gall un Cappuccino neu frechdan bob dydd gostio dros £900 mewn blwyddyn! Cadwch mewn cof pa mor ddrud y gall prynu cinio neu goffi bob dydd ei gostio dros amser. Meddyliwch am yr hyn y gallech chi ei wneud gyda'r holl arian yna!



*"Edrychwch o'ch cwmpas – ewch i lefydd fel Lidl, Savers, Wilkos neu Farchnad Abertawe gan fod prisiau da yn y fan honno i fyfyrwyr"*

***Ashley Holloway***

Os taw bwyd, pethau ymolchi neu bethau bach i'ch ystafell wely sydd ar eich rhestr siopa, mae digonedd o siopau o amgylch Abertawe ar gyfer bargeinion. Pan fydd arian yn brin, dylech gymharu prisiau mewn sawl siop er mwyn gwneud yn siŵr eich bod yn cael gwerth eich arian.

### ARBED ARIAN WRTH DEITHIO

Prifysgol campws yw hon felly fydd dim angen i chi wario llawer ar gostau teithio. Os nad oes modd i chi gerdded, mae'r bws yn ddewis da i deithio o amgylch y ddinas yn hawdd ac yn rhad. Cofiwch fod cerdyn rheilffordd 16-25 i fyfyrwyr yn arbed 30% i chi ar docynnau trên!

### PEIDIWCH Â BOD OFN EDRYCH

Dylech chi gadw golwg ar eich arian drwy wirio eich cyfrif banc yn rheolaidd. Dylech ddod i arfer â bancio ar-lein ac osgoi cael gormod o fraw bob hyn a hyn! Mae nifer o apiau bellach sy'n eich helpu i drefnu'ch arian ar gyfer y tymor.

"

COFIWCH FOD CERDYN RHEILFFORDD 16-25 I FYFYRWYR YN ARBED 30% I CHI AR DOCYNNAU TRÊN.



# BYWYD GWYLLT
# YR ATHRO RORY WILSON

Yr Athro Rory Wilson yw sŵolegydd Prifysgol Abertawe fu'n gyfrifol am gyflwyno'r tag clyfar 'Dyddiadur Dyddiol' arloesol, sef dyfais sy'n tracio anifeiliaid ac sy'n caniatáu i ni gael cipolwg ar fywydau cudd rhai o greaduriaid mwyaf prin ac anodd dod o hyd iddynt yn y byd.



**Fel prif ymgynghorydd gwyddonol ar gyfer cyfres 'Great Migrations' National Geographic, mae ei waith yn golygu ei fod yn gorfod teithio i eithafion y ddaear, o'r ddau Begwn i'r Cyhydedd. Mae'n astudio rhai o greaduriaid mwyaf peryglus a diddorol y byd, o'r llewpart, i siarcod, yr albatros i eliffantod môr, yr armadilo i'r sloth.**

Ym mis Mai 2015, cafodd ei enwi fel un o 50 o arwyr cadwraeth mwyaf dylanwadol Prydain gan gylchgrawn Wildlife y BBC, ochr yn ochr â ffigyrau parchus eraill fel y darlledwyr Syr David Attenborough a Chris Packham a'r gwyddonydd mwncïod, Jane Goodall. Roedd yr Athro Wilson yn 15 oed pan ddatblygodd ddiddordeb yn y mudiad anifeiliaid: "Tua'r oedran hwnnw," meddai, "fe wnes i sylweddoli bod anifeiliaid yn symud mewn ffyrdd nad oedd modd eu rhagweld, a dydy llawer o bethau ym myd natur ddim yn gwneud hynny."

Tyfodd ei chwilfrydedd a chreodd syniad am system tagio anifeiliaid ar ddechrau'r wythdegau pan fu'n gweithio ar ei draethawd hir ar y pengwin yn Ne Affrica. Ehangodd ei ddiddordeb i rywogaethau eraill ac ers hynny, mae wedi cyhoeddi gwaith helaeth ar ymddygiad a'r modd y mae anifeiliaid tir, môr ac awyr yn defnyddio'u hegni.

Yn 2006, dyfarnwyd Gwobr Mentergarwch Rolex i'r Athro Wilson er mwyn datblygu a phrofi'r tag electronig a fyddai'n olrhain symudiadau anifeiliaid yn y môr ac ar y tir. Enw'r Athro Wilson ar y ddyfais oedd y "dyddiadur dyddiol" ac mae'n darparu data anhygoel ar symudiadau anifeiliaid a'u hamgylchfyd.

"Mae'n gofnod hunangynhwysol a gwyllt", meddai'r Athro Wilson. "Unwaith mae'n sownd i anifail, boed yn bysgodyn, yn aderyn neu'n anifail, mae'r ddyfais yn cofnodi swm aruthrol o ddata – popeth o fân symudiadau'r anifail drwy ofod ac amser, i dymheredd ei amgylchfyd a lefel y golau. Mewn geiriau eraill, gallwch chi fod yno – yn y fan a'r lle – gyda'r anifail pan nad oes modd i chi fod go iawn."

Daeth David Hamlin, cynhyrchydd National Geographic i glywed am y ddyfais newydd sbon, ar yr un pryd ag yr oedd yn datblygu syniad am raglen o'r enw Great Migrations, i edrych ar symudiadau epig ar draws y byd sy'n cael eu gwneud gan greaduriaid mwyaf a lleiaf y byd bob blwyddyn, a'r ffin rhwng byw a marw.

Roedd potensial y "dyddiadur" mor anferth, penderfynodd David Hamlin gynnwys yr Athro Wilson fel y prif ymgynghorydd gwyddonol ar Great Migrations gyda'r tîm yn Abertawe yn ymgymryd â gwaith a oedd yn sail i'r rhaglen. Roedd dylanwad y rhaglen yn aruthrol, gan gyrraedd dros 330 miliwn o bobl mewn 166 gwlad ac mewn 34 o ieithoedd.

"

GALLWN DDILYN MORFILOD SY'N NOFIO CILOMEDR O DAN Y DWR, NEU ADAR SY'N HEDFAN CILOMEDR I FYNY YN YR AWYR

Yn ôl yr Athro Wilson: "Rydyn ni wedi mynd o edrych ar y modd y mae anifeiliaid yn symud i osod tagiau arnyn nhw er mwyn gweld sut yn union byddan nhw'n symud, er nad ydym yn gallu'u gweld nhw. Felly gallwn ddilyn morfilod sy'n nofio cilomedr o dan y dŵr, neu adar sy'n hedfan cilomedr i fyny yn yr awyr."

Mae'r Athro Wilson yn cyfeirio at yr ymchwil amlddisgyblaethol sydd wedi rhoi cymaint o sgôp i'r ddyfais: "Rwyf wrth fy modd fy mod i ar restr cylchgrawn Wildlife y BBC o'r cadwraethwyr dylanwadol, ond mae'n deyrnged i'r tîm ac nid i fi yn unig. Heb y ffisegwyr, y gwyddonwyr cyfrifiadurol a'r biolegwyr dyfeisgar, breuddwydio yn fwy na gwneud y buaswn i fy hun."

"Mae gwyddor symudiadau anifeiliaid yn gofyn llawer gan lawer o ddisgyblaethau. Er enghraifft, gall gwyddonwyr cyfrifiadurol greu delweddaeth anhygoel o'r data sy'n dod o dag yr anifail, a gall hwn ein galluogi ni i weld y ffordd y mae anifeiliaid yn symud ac yn ymddwyn mewn ffyrdd penodol na fuasen ni byth wedi'u gweld petawn ni wedi ceisio gwneud hynny ein hunain. Mae wedi'n galluogi ni i gael cipolwg ar feysydd fel mudo a rheolaeth anifeiliaid. Er enghraifft gyda locustiaid, gallwn ddarganfod i ble maen nhw'n mynd, a beth maen nhw'n mynd i'w wneud o ran poblogaeth; a sut mae poblogaeth yn newid ac yn ehangu oherwydd newid yn yr hinsawdd ac yn y blaen."

"Y peth mawr nesaf yw 'rhagweld symudiadau anifeiliaid', meddai'r Athro Wilson. "Dychmygwch edrych ar anifail a dweud: Dw i am ddweud wrthych chi beth mae hwn am wneud nesaf – a bod yn gywir."

"Pan fyddwch chi'n rhoi tag ar anifail newydd dydych chi erioed wedi'i dagio o'r blaen, does gennych chi ddim syniad beth rydych yn mynd i'w ddarganfod am yr anifail hwnnw pan ddaw y tag yn ôl, felly rydych yn ei dynnu oddi arno, ei roi yn y cyfrifiadur, ac yn sydyn iawn, rydych yn darllen y stori anhygoel hon sydd wedi'i chyfansoddi gan yr anifail ei hun ynglŷn ag i ble mae wedi bod, beth mae wedi'i wneud, a chi yw'r person cyntaf i agor y llyfr arbennig hwn. Mae'n wefr arbennig."

Mewn cydweithrediad â Phrifysgol Gwyddoniaeth a Thechnoleg y Brenin Abdullah, bydd prosiect diweddaraf yr Athro Wilson yn gosod tag ar nifer o wahanol anifeiliaid sy'n defnyddio riff yn y Môr Coch. Y syniad yw gweld sut bydd yr anifeiliaid yn rhyngweithio mewn amgylchfyd lle caiff popeth (pob cainc o gwrel a phob anemone) ei fapio mewn 3D.

"

YN SYDYN IAWN RYDYCH YN DARLLEN Y STORI ANHYGOEL HON SYDD WEDI'I CHYFANSODDI GAN YR ANIFAIL EI HUN YNGLŶN AG I BLE MAE WEDI BOD, BETH MAE WEDI'I WNEUD









# Cyfleoedd rhy dda i'w colli

## Ionawr

### GŴYL FWYD A CHERDDORIAETH GWASAEL PENRHYN GŴYR

Rhowch groeso i'r Flwyddyn Newydd gydag un o draddodiadau hynaf, a rhyfeddaf, y byd. Dewch i ymuno yn y frwydr eiriol â'r Fari Lwyd drwy herio a thynnu coes ar ffurf cân – does dim byd tebyg!
***gowerheritagecentre.co.uk/whatson.htm***

## Chwefror

### MARCHNAD TRYSOR AIL-LAW YN AMGUEDDFA GENEDLAETHOL Y GLANNAU

Hoff o fargen, neu'n ysu am ddod o hyd i drysor ail-law unigryw? Mae'r Farchnad hon yn cynnwys popeth o ddillad moethus oes a fu, i lestri, llyfrau a thlysau! Cynhelir y Farchnad sawl gwaith y flwyddyn, felly cadwch lygaid ar agor am yr un nesaf!
***amgueddfa.cymru/abertawe/digwyddiadau***

## Ebrill

### VARSITY CYMRU

Dewch i wylio'r frwydr flynyddol ym myd y campau rhwng Abertawe a Chaerdydd, wrth iddyn nhw gystadlu ar draws 30 math gwahanol o chwaraeon. Pwy fydd yn codi'r Darian fuddugol y tro yma?
***welshvarsity.com***

### GŴYL JIN ABERTAWE

Mae Gŵyl Jin wreiddiol, a mwyaf gwledydd Prydain yn dod i Abertawe – a dyma'ch cyfle chi i flasu dros 100 math gwahanol o jin, dod o hyd i'ch hoff goctel newydd, a dysgu mwy gan arbenigwyr y diwydiant.
***ginfestival.com***

## Mai

### TRIATHLON ABERTAWE

P'un a ydych chi'n gwylio o'r ymylon, yn cystadlu am y tro cyntaf, yn cystadlu am y canfed tro neu'n cystadlu fel athletwr ar lefel uwch, mae Triathlon Abertawe yn cynnig rhywbeth i bawb. Gyda cherddoriaeth fyw a naws anhygoel ar draws y ddinas, mae'n ddiwrnod gwych!
***swanseatriathlon.com***

## Mehefin

### Y DDAWNS HAF

Dyma uchafbwynt digwyddiadau'r myfyrwyr bob haf – gyda 5000 o fyfyrwyr Abertawe yn dod ynghyd i fwynhau bwyd, cerddoriaeth ac adloniant i ddathlu diwedd blwyddyn academaidd wych arall.

## Gorffennaf

### SIOE AWYR GENEDLAETHOL CYMRU

Gydag arddangosfeydd syfrdanol yn yr awyr uwchben Bae Abertawe, mae torfeydd anferth yn dod i ryfeddu at gampau'r awyrennau hen a newydd. Mae digon i gadw'ch traed ar y ddaear hefyd gydag amrywiaeth o stondinau gwybodaeth ac adloniant.
***walesnationalairshow.com***

### TAITH BEICIO ABERTAWE

Dewch i ymuno â beicwyr eraill ar daith drwy harddwch Penrhyn Gŵyr fel rhan o ddigwyddiad sydd wedi'i gynnal ers dros 25 mlynedd. Gallwch ddewis o blith llwybr 12 milltir, 28 milltir neu 46 milltir a helpu i godi arian yn y frwydr yn erbyn clefyd y galon.
***bhf.org.uk/get-involved/events/bike-rides***

### GŴYL TSILI'R GŴYR

Awydd rhoi cynnig ar fod yn bencampwr bwyta tsili mewn cystadleuaeth danbaid? Neu i'r sawl sy'n hoffi ychydig yn fwy o amrywiaeth, mae'r ŵyl yn cynnig detholiad eang o fwydydd, stondinau crefft a cherddoriaeth fyw.
***gowerchillis.com***

## Awst

### GŴYL GWRW A SEIDR BAE ABERTAWE

Dewch i flasu rhai o'r diodydd lleol a chenedlaethol gorau mewn digwyddiad sydd wedi'i gynnal ers mwy na 30 mlynedd. Gyda thros 150 o fathau o gwrw a seidr i'ch denu, mae'n siŵr bydd rhywbeth yma at eich dant!
***swanseacamra.org.uk***

### RAS RAFFTIAU HWYL CRIW BAD ACHUB Y MWMBWLS

Awydd bod yn rhan o hanes lleol? Dewch i gystadlu gyda'ch rafft yn Ras Rafftiau'r Mwmbwls er mwyn codi arian i gefnogi'r RNLI.
***facebook.com/MumblesRaftRace***

### Y DYN GWYRDD

Y Dyn Gwyrdd yw gŵyl gerddorol a chelfyddydol fwyaf Cymru – gydag amrywiaeth anhygoel o gerddoriaeth fyw, llenyddiaeth, ffilm, comedi, theatr a barddoniaeth, ac mae'n cael ei chynnal yn harddwch Bannau Brycheiniog dros gyfnod o bedwar diwrnod.
***greenman.net***

## Ffefrynnau Misol

### MARCHAND UPLANDS

9am – 1pm ar ddydd Sadwrn olaf bob mis yn Sgwâr Gwydr yn yr Uplands.
***uplandsmarket.com***

### CAFFI GWYDDONIAETH ABERTAWE

Dewch i'r caffi bob mis i glywed arbenigwr blaenllaw yn ei faes yn rhoi cyflwyniad agoriadol byr, ac yna sgwrs anffurfiol gyfeillgar. Ymlaciwch gyda diod yn eich llaw i wrando, neu i gymryd rhan yn y drafodaeth.
***swansea.ac.uk/science/swanseasciencecafe***

## Medi

### GŴYL WYDDONIAETH ABERTAWE

Caiff gŵyl wyddoniaeth newydd sbon Abertawe – y digwyddiad mwyaf o'i fath yng Nghymru – ei threfnu gan y Brifysgol i roi llwyfan i waith ymchwil amrywiol ac ysbrydoledig y Brifysgol ar gyfer y gymuned ehangach. Mae sgyrsiau, arddangosfeydd, sioeau a gweithdai sy'n cwmpasu amrywiaeth eang o bynciau ar agor i bawb yn rhad ac am ddim.
***abertawe.ac.uk/gwylwyddoniaethabertawe***

### 10K BAE ABERTAWE

Mewn arolwg diweddar, daeth y ras hon yn ail o blith holl rasys 10k gorau gwledydd Prydain – gyda chwrs gwastad â golygfeydd gwych – mae'r ras ar agor i bawb o bob gallu ac yn gyfle gwych i fwynhau harddwch Bae Abertawe.
***swanseabay10k.com***

### GŴYL YMYLOL ABERTAWE

Bydd rhai o ddoniau amgen gorau Cymru ym maes comedi, cerdd, barddoniaeth a theatr yn dod ynghyd i berfformio mewn lleoliadau ar hyd y Stryd Fawr, Stryd y Castell a thu hwnt.
***facebook.com/FringeSwansea***

### PROMS YN Y PARC Y BBC – PARC SINGLETON

Bydd Abertawe a Neuadd Albert yn cyfuno i sicrhau bod Noson Ola'r Proms yn cynnig noson wych o gerddoriaeth, naws anhygoel, ac wrth gwrs, y sioe tân gwyllt draddodiadol i gloi'r dathliadau.
***swansea.gov.uk/whatson***

## Hydref

### GŴYL RYNGWLADOL ABERTAWE

Dyma ddathliad Abertawe o gerddoriaeth a'r celfyddydau, gyda pherfformiadau cerddorfaol, cyngherddau, dawnsfeydd, sioeau cerdd, dramâu theatr, darlleniadau, sioeau comedi a ffilmiau – mae rhywbeth at ddant pawb!
***swanseafestival.org***

### TRIATHLON Y MWMBWLS

Mae Triathlon enwog y Mwmbwls yn cynnig rhywbeth i bawb o bob gallu, gyda dewis o bellteroedd er mwyn rhoi her ychwanegol i chi'ch hun.
***mumblestri.com***

### GŴYL SEIDR Y GŴYR

Dewch i fwynhau'r caws, seidr a'r perai gorau sydd gan Gymru i'w cynnig – gan gynnwys mathau sydd wedi'u gwneud yn lleol ar benrhyn Gŵyr. Mae digonedd o fwyd ar gael hefyd, yn ogystal ag arddangosfeydd a chyngor ar sut i wneud eich sudd afal neu eich seidr eich hun.
***gowerheritagecentre.co.uk/whatson.htm***

## Rhagfyr

### MARCHNAD NADOLIG FEGAN ABERTAWE YN AMGUEDDFA GENEDLAETHOL Y GLANNAU

Dewch i fwynhau marchnad 100% fegan gyntaf Abertawe, gyda chyfle i brynu'ch danteithion fegan yn barod am y Nadolig ac i brynu anrhegion unigryw i'r teulu oll.
***swanseavegfest.wordpress.com***


### GWLEDD Y GAEAF AR Y GLANNAU

Cyfle i chi gychwyn dathliadau'r ŵyl gydag ychydig o sglefrio, bwydydd blasus o'r cabanau bwyta alpaidd, a thro ar yr olwyn fawr.
***swanseachristmas.com***

# @PRIFYSGOL_ABERTAWE #BYWYDPRIFABERTAWE CYSTADLEUAETH INSTAGRAM

Mae ein myfyrwyr wedi tynnu lluniau sy'n cyfleu bywyd fel myfyriwr yma ym Mhrifysgol Abertawe. Rhannwch eich lluniau chi ar Twitter, Instagram neu Facebook gan ddefnyddio'r hashnod #BywydPrifAbertawe am gyfle i ennill hwdi Prifysgol Abertawe!



# ROOT




Siop dan yr unto am fwydydd llysfwytäol, figan, a bwyd **heb gynnyrch llaeth/ glwten**.

swansea student media

*Ymunwch â ni!*

Mae Swansea Student Media yn cynnwys tair sianel: **Waterfront**, **Xtreme Radio** ac **SUTV.** Mae'r cyfan yn cael eu harwain gan fyfyrwyr sydd yn ysgrifennu, cyflwyno a chynhyrchu ar gyfer pob sianel.

**Dysgwch fwy swanseastudentmedia.com**

@swnstudentmedia swanseastudentmedia




Chwaraeon Abertawe
Prifysgol Abertawe

# CHWARAEON MYFYRWYR



**PRYNWCH GERDYN AELODAETH CHWARAEON MYFYRWYR A CHEWCH £10 ODDI AR AELODAETH I'R GAMPFA**

@SportSwans Sport Swansea

## *Enillwch daleb* amazon *gwerth £100!*

Dyma rifyn cyntaf cylchgrawn Shwmae ac rydym yn gwerthfawrogi'ch adborth.
Ewch i **abertawe.ac.uk/israddedig/bywydmyfyriwr** i gyflwyno'ch adborth a bydd gennych gyfle i ennill taleb Amazon gwerth £100!

# Mwynhewch rhai o draethau gorau'r DU,

ar stepen eich drws

Prifysgol Abertawe

@Prif_Abertawe

prifabertawe

prifysgol_abertawe


**Cysylltwch â ni**

Ffôn: +44 (0) 1792 295784

Ebost: sro@abertawe.ac.uk


Dyluniwyd gan **IconCreativeDesign.com**